Basai – *Would*

Themau - *Themes*

Basai - *Would*

Patrymau laith - *Language patterns*

Mae ‘basai’ yn perthyn i’r ferf 'bod'.
Basai (would) comes from the verb ‘bod'

Baswn i	*I would / I would be*
Baset ti	*You would*
Basai hi/fe/ y plant	*She / he / the children would*
Basen ni	*We would*
Basech chi	*You would*
Basen nhw	*They would*

Taswn i	*If I were to*
Taset ti	*If you were to*
Tasai hi/fe/ y plant	*If she / he / the children were to*
Tasen ni	*If we were to*
Tasech chi	*If you were to*
Tasen nhw	*If they were to*

Mae’r ffurf ‘taswn’ yn cynnwys y gair ‘if'.
‘If’ is included in the form ‘taswn’.

Taswn i’n ennill *If I won*
Basai’r rheolwraig yn hapus i siarad â chi tasai hi yma.
The manager would be happy to speak to you if she were here.

Esiamplau ychwanegol - *Extra examples*

Mae angen defnyddio ‘yn’ fel gyda ffurfiau eraill ‘bod’
‘Yn’ is needed as with other forms of ‘bod’
Baswn i’n hapus i'ch helpu chi. *I would be happy to help you.*

Mae treiglad meddal i’r negyddol a’r cwestiwn.
There is a soft mutation with the negative and question form.

Negyddol – *negative*
Faswn i ddim yn cwyno fel arfer. *I wouldn’t complain normally.*

Cwestiwn – *question* –
Fasech chi’n hoffi prynu batris nawr? *Would you like to buy batteries now?*

Ateb cwestiwn – *answering questions*

Fasech chi'n fodlon dangos y dortsh i fi? Baswn / Na faswn

Basai'n well gyda fi siarad â'r rheolwr.
I would prefer to talk to the manager.

Tasgau - *Tasks*

Tasg sain / *Audio task*

Atebwch y cwestiynau hyn .
Answer these questions.

Pwy fasai Mr Morgan yn hoffi ei weld?
Beth brynodd e yn y siop?
Beth yw'r broblem?
Pam mae e'n cwyno?
Pam dyw'r dortsh ddim yn gweithio?
Pam mae e'n ymddiheuro?

Tasg fideo / *Video task*
Llenwch y bylchau.
Fill the gaps.

Tasai Arwyn yn ennill y loteri….

basai fe'n _____ peint i James

_____ fe'n prynu Lamborghini

_____ fe ddim yn prynu tŷ yng Nghaerdydd

_____ fe'n yfed champagne

_____'r cariad ddim yn gwneud y gwaith tŷ

basai _____ yn edrych ar ôl y plant

_____ nhw'n cael y dillad a'r teganau druta

basai'r _____ yn mynd yn gyflym iawn

Sgript Sain - *Audio Script*

Mr Morgan: Baswn i'n hoffi gweld y rheolwr os gwelwch yn dda.

Alun: Mae'n ddrwg gyda fi, ond dyw'r rheolwraig ddim yma heddiw. Beth yw'r broblem…….Mr?.....

Mr Morgan: Mr Morgan.

Alun: Baswn i'n hapus i'ch helpu chi. Beth yw'r broblem?

Mr Morgan: Basai'n well gyda fi siarad â'r rheolwraig.

Alun: Wel! Dw'n siŵr basai'r rheolwraig yn hapus i siarad â chi tasai hi yma, ond dyw hi ddim yma heddiw.

Mr Morgan: O wel…prynais i'r dortsh yma yn eich siop chi ddoe ond dyw hi ddim yn gweithio!

Alun: O diar.

Mr Morgan: Baswn i'n hapus tasech chi'n edrych arni hi.

Alun: Wrth gwrs Mr Morgan.

Mr Morgan: Dyma hi. Faswn i ddim yn cwyno fel arfer, ond roedd hi'n dortsh ddrud iawn.

Alun: Os oes problem gyda'r dortsh Mr Morgan basen ni'n hapus i roi tortsh newydd i chi… ond…arhoswch funud

Mr Morgan: Beth sy'n bod?

Alun: Wel, tasech chi wedi rhoi batri yn y dortsh basai'r dortsh yn gweithio!

Mr Morgan: O diar!

Alun: Peidiwch â phoeni Mr Morgan. Fasech chi'n hoffi prynu batris nawr?

Mr Morgan: Baswn wrth gwrs, a baswn i'n hoffi ymddiheuro am fod mor dwp!

Geirfa

rheolwr(aig) – *manager (female)*
edrych arni hi – *(to) look at it*
dangos – *(to) show*
cwyno – *(to) complain*
drud – *expensive*
ymddiheuro – *(to) apologise*

Sgript Fideo - *Video Script*

Arwyn: Wel, dw i'n teimlo'n lwcus heno.

James: Wyt ti wir?

Arwyn: Ydw. Dw i wedi prynu dau docyn i'r loteri! Mae'r jacpot yn chwe miliwn.

James: Beth faset ti'n wneud gyda chwe miliwn o bunnoedd?

Arwyn: Taswn i'n ennill chwe miliwn o bunnoedd ...baswn i'n prynu peint i ti.

James: O diolch.

Arwyn: Dim ond un cofia. Yna baswn i'n prynu car. Lamborghini coch...

James: Faset ti ddim yn gallu parcio Lamborghini ar dy stryd di. Basai fe'n cael ei ddwyn!

Arwyn: O, faswn i ddim yn aros yn fanna. Baswn i'n symud tŷ.

James: O ie. I ble?

Arwyn: Baswn i'n prynu tŷ crand …

James: Yng Nghaerdydd?

Arwyn: Nage. Ym Monte Carlo.

James: Faset ti ddim yn gallu cael Guinness ym Monte Carlo.

Arwyn: Dim ots. Baswn i'n yfed champagne!

James: Baset ti'n unig heb dy bartner yfed ym Monte Carlo.

Arwyn: O na faswn. Baswn i'n ffeindio model brydferth fel cariad i fi.

James: Hi fasai'n gwneud y gwaith tŷ?

Arwyn: O na. Fasai hi ddim yn gwneud hynny. Baswn i'n cael morwyn i lanhau'r tŷ...

James: A basech chi'n cael nani o Gymru i edrych ar ôl y plant...

Arwyn: Y plant?

James: Basen nhw eisiau'r dillad druta a'r teganau druta fel eu ffrindiau ym Monte Carlo a basai'r cariad eisiau deiamwnt drud ar ei bys.

Arwyn: Basai'r arian yn mynd yn gyflym iawn!

James: O basai!

Teledu: A rhifau'r loteri heno yw … wyth, undeg naw, dau ddeg un, dau ddeg pedwar, tri deg tri a phedwar deg naw.

Arwyn: Dim un rhif!

James: A dy rownd di yw hi nesa!

Arwyn: O gret.

James: Anlwcus!

Geirfa

teimlo – *(to) feel*
cael ei ddwyn – *(to) be stolen*
prydferth – *beautiful*
morwyn – *maid*
teganau – *toys*
druta – *most expensive*
deiamwnt – *diamond*
bys – *finger*

Atebion - *Answers*

Tasg sain / *Audio task*

Pwy fasai Mr Morgan yn hoffi ei weld? Basai Mr Morgan yn hoffi gweld y rheolwraig.
Beth brynodd e yn y siop? Prynodd e dortsh.
Beth yw'r broblem? Dyw'r dortsh ddim yn gweithio.
Pam mae e'n cwyno y tro yma? Roedd y dortsh yn ddrud.
Pam dyw'r dortsh ddim yn gweithio? Does dim batri yn y dortsh.
Pam mae e'n ymddiheuro? Am fod mor dwp.

Tasg fideo / *Video task*

Tasai Arwyn yn ennill y loteri….
basai fe'n **prynu** peint i James
basai fe'n prynu Lamborghini
fasai fe ddim yn prynu tŷ yng Nghaerdydd
basai fe'n yfed champagne
fasai'r cariad ddim yn gwneud y gwaith tŷ
basai **nani** yn edrych ar ôl y plant
basen nhw'n cael y dillad a'r teganau druta
basai'r arian yn mynd yn gyflym iawn